# Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr AU Grŵp Colegau NPTC

# Diogelu a Defnyddio Data Myfyrwyr

### Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU

**1** Mae'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn rheoleiddio prosesu data personol mewn unrhyw fformat gan Grŵp Colegau NPTC ('y Grŵp'), gan gynnwys data personol digidol a chopi caled a phob fformat arall. 'Data personol' yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw, a 'phrosesu' yw unrhyw weithgaredd a gyflawnir sy'n cynnwys data personol, gan gynnwys eu dal a'u storio. Mae'r datganiad hwn yn gymwys o dan y DPA a'r GDPR neu unrhyw ddeddfwriaeth arall a ddaw yn sgil y GDPR neu'r DPA.

**2** Mae'r datganiad hwn yn sefydlu gweithdrefnau'r Grŵp sy'n llywodraethu casglu a rhyddhau data myfyrwyr ac fe'i darperir i fyfyrwyr wrth iddynt ymgeisio a chofrestru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut y defnyddir data myfyrwyr, a lle y caiff data eu rhoi gan y Grŵp i Lywodraeth Cymru a phartïon allanol eraill.

**3** Y Grŵp yw'r rheolwr data ar gyfer yr holl ddata personol y mae'n eu dal a'u prosesu, ac eithrio lle y gwneir yn rhinwedd prosesydd data ar ran rheolwr data arall. Manylion cyswllt y Grŵp yw:

Grŵp Colegau NPTC
Heol Dŵr-y-felin
Castell-nedd
SA10 7RF

**4** Swyddog Diogelu Data'r Grŵp yw:

Mrs Susan Kirby
Swyddog Diogelu Data
Grŵp Colegau NPTC
Heol Dŵr-y-felin
Castell-nedd
SA10 7RF
0330 818 9014
data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk

## Hysbysiad i Ymgeiswyr a Myfyrwyr Cofrestredig

**5** Gall y Grŵp gael, dal a phrosesu data personol myfyrwyr gan gynnwys manylion personol, amgylchiadau teuluol a chymdeithasol, cofnodion addysg a hyfforddiant, gwybodaeth am gyflogaeth, manylion ariannol, manylion ceir y perchnogir arnynt yn cynnwys manylion rhif cofrestru cerbydau, a gwasanaethau a ddarperir. Gall gael, dal a phrosesu data personol sensitif (y term a ddefnyddir gan y DPA) a data categori arbennig (y term a ddefnyddir gan GDPR) myfyrwyr gan gynnwys tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol neu athronyddol, data biometrig ac iechyd corfforol neu feddyliol.

**6** Ceir y data personol a data personol sensitif/data categori arbennig a ddelir gan y Grŵp sy'n ymwneud â myfyrwyr yn uniongyrchol gan y myfyriwr neu'r ymgeisydd, neu mewn rhai achosion gan sefydliad trydydd parti sy'n rhan o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Grŵp sydd wedi cael yr wybodaeth yn y lle cyntaf, er enghraifft ysgolion awdurdodau lleol sy'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr, gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer Plant sy'n derbyn Gofal ac Ymadawyr Gofal a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Prawf i'r rhai ag euogfarnau troseddol.

**7** I fyfyrwyr sy'n derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) neu Gynllun Gofal Iechyd Addysg (CGIA) bydd y Grŵp yn gofyn am y dogfennau hynny a'u cael gan yr ysgol y mae'r myfyriwr yn ei gadael neu awdurdod lleol. Gallai'r Grŵp rannu'r wybodaeth hon gyda thrydydd parti, fel corff y GIG, i adolygu a chynllunio ar gyfer unrhyw gymorth y gallai fod ei hangen wrth astudio yn y Grŵp.

**8** Mae'r Grŵp yn dal data personol a data personol sensitif/categori data arbennig ei fyfyrwyr er mwyn gweithredu a rheoli'r holl wasanaethau a phrosesau sy'n ymwneud â myfyrwyr, gan gynnwys recriwtio myfyrwyr, derbyn, ymrestru, dysgu ac addysgu, ymweliadau addysgol, cludiant rhwng y cartref a'r coleg, arholiadau, graddio a gwasanaethau eraill megis llety, cymorth i fyfyrwyr a gyrfaoedd. Dim ond gwybodaeth sy'n ofynnol at y dibenion hyn a geir ac a brosesir, a hebddi efallai na fyddai'r Grŵp yn gallu darparu ei wasanaethau. Trosglwyddir gwybodaeth rhwng amrywiol adrannau'r Grŵp am resymau gweithredol fel sy'n angenrheidiol ac yn gymesur ar gyfer dibenion bwriadedig.

**9** Caiff data personol myfyrwyr eu casglu a'u prosesu gan y Grŵp fel y bo'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r contract y mae'r Grŵp yn darparu gwasanaethau i fyfyrwyr oddi tano. Gall rhai gweithgareddau prosesu hefyd gael eu cynnal o dan rwymedigaeth gyfreithiol (er enghraifft, datgelu data personol i bartïon allanol o dan bwerau statudol), os yw'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol y myfyriwr neu barti arall (er enghraifft, datgeliadau i bartïon allanol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion), lle mae'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol (er enghraifft, casglu neu ddatgelu gwybodaeth er mwyn bodloni gofynion rheoliadol neu statudol), neu, lle y mae'n angenrheidiol ar gyfer buddiannau dilys y Grŵp neu drydydd parti (bydd buddiannau dilys yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn effeithlon, yn gyfreithlon ac yn gymesur ac ni fyddant yn niweidiol i fuddiannau neu hawliau unigolion). Pan na fydd unrhyw rai o'r seiliau cyfreithiol hyn yn gymwys, ceisir cydsyniad yr unigolyn i brosesu ei ddata personol.

**10** Lle caiff data personol sensitif/categori data arbennig myfyrwyr eu casglu a'u prosesu gan y Grŵp bydd hyn ar y sail gyfreithiol y derbynnir caniatâd penodol y myfyriwr, gofynion cyflogaeth a/neu nawdd cymdeithasol/diogelu, amddiffyn buddiannau hanfodol y myfyriwr neu barti arall, arfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol, rhesymau o

ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, at ddibenion meddygol neu iechyd, neu os yw'r wybodaeth wedi'i gwneud yn gyhoeddus gan y myfyriwr. Bydd unrhyw brosesu yn gymesur ac yn ymwneud â darparu gwasanaethau gan y Grŵp. Pan ddefnyddir y data hyn at ddibenion monitro ac adrodd bydd yn ddienw neu defnyddir ffugenw os yn bosibl.

**11** Gall y Grŵp ddatgelu data personol a data personol sensitif/data categori arbennig myfyriwr i asiantaethau allanol y mae ganddo rwymedigaethau iddynt; er enghraifft, at ddibenion Llywodraeth Cymru, at ddibenion fisâu a mewnfudo, ac i ganghennau eraill llywodraeth ganolog neu leol, i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFW) Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), Cronfa Ffyniant Cymdeithasol y DU, Gyrfa Cymru, Estyn sefydliadau eraill o bosibl o'r fath at ddibenion diffiniedig. Gall hefyd ddatgelu gwybodaeth i gyrff arholi, cynrychiolwyr cyfreithiol, yr heddlu neu asiantaethau diogelwch, cyflenwyr neu ddarparwyr gwasanaethau, sefydliadau arolygu ac ymchwil a ddefnyddir gan y Grŵp, ac awdurdodau rheoleiddio.

Os oes gan fyfyrwyr ddyledion di-dâl i'r Grŵp ar ddiwedd eu cwrs gall y Grŵp, yn ôl ei ddisgresiwn, drosglwyddo'r wybodaeth hon i asiantaethau casglu dyled er mwyn mynd ati'n ddyfal i gasglu'r ddyled.

**12** Mae'r Grŵp yn defnyddio technolegau Deallusrwydd Artiffisial (AI) i gefnogi a gwella amrywiol agweddau ar y prosesau addysgol a gweinyddol. Rydym yn ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o ran diogelu data fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR). Mae'r holl brosesu data sy'n gysylltiedig ag AI yn cael ei wneud gyda sylw at ddiogelwch, tryloywder a chywirdeb data myfyrwyr. Rydym yn sicrhau bod pob defnydd o AI yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Lle mae gan offer AI gyfyngiad oedran ar gyfer eu defnyddio, gofynnir am ganiatâd cyn eu defnyddio gan fyfyrwyr neu rieni/gwarcheidwaid ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed.

**13** Mae'r Grŵp hefyd yn defnyddio data personol y myfyriwr fel a ganlyn:

a) Darparu manylion cyswllt i Undeb y Myfyrwyr i'w galluogi i gynnig gwasanaethau priodol i fyfyrwyr. Cysylltwch â student-union@nptcgroup.ac.uk os gwelwch yn dda os nad ydych yn dymuno i'ch manylion cyswllt gael eu rhannu gydag Undeb y Myfyrwyr.

b) Gall Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr y Grŵp gysylltu â myfyrwyr sy'n datgan bod ganddynt angen iechyd neu angen dysgu ychwanegol neu os ydynt yn blentyn sy'n derbyn gofal / ymadawr gofal, gofalwr / oedolyn ifanc sy'n ofalwr, cyn aelod o'r lluoedd arfog neu aelod o deulu gyda rhiant gwarcheidwad sy'n aelod presennol o'r lluoedd arfog neu sydd ag euogfarn troseddol a datgelwyd i drafod yn gyfrinachol unrhyw gymorth sydd ar gael

c) Creu cardiau adnabod a llenwi'r dechnoleg Adnabod Rhifau Cerbydau Awtomatig (ANPR) fydd yn gweithredu systemau mynediad rheoledig sy'n gweithredu ar draws y coleg.

d) Darparu adroddiadau cynnydd i riant/gwarcheidwad myfyrwyr o dan 19 oed a noddwyr myfyrwyr (ac eithrio perthnasau).

e) Darparu geirdaon i sefydliadau addysgol, y Gwasanaeth Derbyniadau Colegau a Phrifysgolion (UCAS) a chyflogwyr, fel arfer gyda chydsyniad y myfyrwyr neu'r graddedigion.

f) Cyhoeddi enwau myfyrwyr mewn rhaglenni gwobrwyo blynyddol.

g) Datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr a graddedigion at ddibenion hyrwyddo'r Grŵp, ac i'w cyn ysgolion at ddibenion cyswllt ysgolion, ond dim ond gyda chaniatâd y myfyriwr os ydynt yn cael eu hadnabod yn bersonol.

h) At ddibenion canfod llên-ladrad, gan ddefnyddio'r gwasanaeth canfod llên-ladrad *Turnitin* ar-lein.

i) Cyflenwi manylion personol ac ariannol i ddarparwyr gwasanaethau ariannol y mae'r Grŵp yn defnyddio eu gwasanaethau, er enghraifft ar gyfer talu ffioedd, ad-daliadau, benthyciadau a gwasanaethau tebyg, gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru.

j) Datgelu gwybodaeth i bartïon allanol at ddibenion diogelu a dyletswydd gofal, er enghraifft i'r gwasanaethau cymdeithasol, ymarferwyr meddygol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

k) yn ddarostyngedig i adolygiadau fesul achos, darparu manylion cyswllt i gwmnïau a sefydliadau trydydd parti sy'n cael eu defnyddio'n ffurfiol gan y Grŵp i ddarparu lefelau gwell o wasanaeth i gefnogi gweithgareddau craidd, yn cynnwys cyflogwyr at ddibenion lleoliadau profiad gwaith.

l) Rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am unrhyw absenoldebau yn achos myfyrwyr dan 19 oed ac i rieni/gwarcheidwaid myfyrwyr dan 25 oed os bydd eu habsenoldeb yn achos o bryder o ran iechyd meddwl.

m) Datgelu gwybodaeth ynghylch statws ymrestru myfyriwr a'i gyflawniadau i'w Awdurdod Addysg Lleol gwreiddiol Lleol a Gyrfa Cymru at ddibenion tracio cynnydd ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13.

n) Tynnu llun a fydd yn cael ei storio yn System Rheoli Gwybodaeth y Coleg a'i ddefnyddio at ddibenion adnabod gan gynnwys ar fathodyn adnabod y coleg ac ar systemau rhaglenni mewnol, ar Moodle ac ar Teams.

o) At ddibenion archwilio mewnol, gan gynnwys archwilwyr penodedig mewnol ac allanol y Grŵp ac Estyn.

**14** Mae'r Grŵp yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi'u lleoli ar gampws gymryd rhan yn ei system monitro presenoldeb (marcio cofrestri). I rai grwpiau o fyfyrwyr, mae'n ofyniad statudol bod y Grŵp yn monitro eu presenoldeb (er enghraifft ar gyfer myfyrwyr sy'n hawlio Grant Cynhaliaeth Addysg (GCA) / Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC) a myfyrwyr rhyngwladol) a gall fod gofyniad i roi gwybod am absenoldeb i gyrff swyddogol (e.e. Fisâu DU a mewnfudo). Mae hefyd o gymorth i'r Grŵp yn ei ddyletswydd gofal a'i ddarpariaethau cymorth, yn ogystal â galluogi dadansoddiad o nodweddion penodol y gwasanaethau a ddarperir megis rheoli gofod.

**15** Mewn rhai achosion efallai y bydd y Grŵp yn trosglwyddo data personol myfyrwyr i drydydd parti mewn gwledydd eraill. Bydd unrhyw drosglwyddiadau o'r fath mewn perthynas â darparu gwasanaethau craidd y Grŵp yn unig, gan gynnwys sefydliadau partner dramor. Gall gwasanaethau TG a ddefnyddir gan y Grŵp gynnwys trosglwyddo neu gynnal data personol myfyrwyr dramor. Caiff data personol eu rhannu ag asiantau rhyngwladol a ddefnyddir gan y Grŵp i ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr tramor. Mae pob achos o drosglwyddo data personol dramor yn ddarostyngedig i ddiogelu technegol

addas a gofynion cytundebol sy'n cynnwys sicrwydd priodol i sicrhau diogelwch data a chydymffurfiaeth lawn â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.

**16** Mae rhai adrannau o'r Grŵp yn cyflawni prosesau sy'n ymwneud â data personol ymgeiswyr neu fyfyrwyr sy'n cynnwys elfennau o broffilio. Mae'r Swyddfa Marchnata a Chyfathrebu a'r Swyddfa Derbyniadau yn enghreifftiau o hyn, lle y defnyddir y prosesau hyn i bennu natur y cyfathrebiadau a anfonir i unigolion ac i hwyluso gweithdrefnau derbyn a recriwtio myfyrwyr.

**16** Cedwir cofnod academaidd sylfaenol ar gyfer myfyrwyr unigol gan y Grŵp yn barhaol, gyda chofnodion mwy manwl yn cael eu cadw am gyfnodau cadw diffiniedig. Gellir cael manylion am y cyfnodau cadw sy'n berthnasol i elfennau gwahanol o'r cofnodion myfyrwyr ar gais.

**17** Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r defnydd o ddata personol myfyrwyr a amlinellir uchod, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bost ar data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk neu ffoniwch 03308189014.

## Hawliau'r Unigolyn

**18** Mae gan unigolion y cynhelir eu data personol sensitif/data categori arbennig gan y Grŵp yr hawliau canlynol ynghylch eu data:

a) yr hawl i ofyn am gael gweld eu data personol a gedwir gan y Grŵp.

b) yr hawl i gael unrhyw ddata personol anghywir neu anghyflawn wedi'u cywiro.

c) yr hawl i ddileu data personol – bydd hyn dim ond yn gymwys os nad oes unrhyw reswm dilys i'r Grŵp barhau i brosesu data personol. Fel arfer, bydd gofyn i'r Grŵp gadw cofnod myfyriwr sylfaenol am gyfnod amhenodol.

d) yr hawl i gyfyngu ar brosesu data personol – mae gan unigolion yr hawl i atal prosesu data personol gan y Grŵp mewn sefyllfaoedd penodol.

e) yr hawl i gludadwyedd data – mae gan fyfyrwyr yr hawl i ofyn am ddarparu rhai agweddau ar eu gwybodaeth (er enghraifft manylion cynnydd academaidd) ar ffurf ddigidol er mwyn ei rhoi i sefydliadau eraill.

f) yr hawl i wrthwynebu – gall myfyrwyr wrthwynebu bod y Grŵp yn prosesu eu data personol mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys anfon a derbyn deunydd marchnata uniongyrchol.

g) yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau a phroffiliau a gyflawnir yn awtomataidd – mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau a wneir drwy ddulliau awtomatig heb ymyrraeth ddynol mewn rhai amgylchiadau.

Dylid gwneud pob cais i arfer unrhyw un o'r hawliau hyn i Swyddog Diogelu Data'r Grŵp

**20** Mewn achosion lle y mae prosesu data personol neu ddata personol sensitif/data categori arbennig yn seiliedig ar gydsyniad myfyrwyr, mae ganddynt yr hawl i dynnu eu cydsyniad ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r adran neu'r gwasanaeth a dderbyniodd y cydsyniad hwnnw neu Swyddog Diogelu Data'r Grŵp.

21 Os bydd myfyrwyr yn anfodlon ar y modd y caiff eu data personol eu trin gan y Grŵp, neu yn credu nad yw'r Grŵp yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Diogelu Data neu GDPR, dylent gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Grŵp yn y lle cyntaf. Gellir dilyn gweithdrefn gwyno ffurfiol y Grŵp os yn briodol, ac mae ganddynt hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; ceir manylion pellach ar www.ico.org.uk .

## Arolygon Myfyrwyr a'r Rhai sy'n Gadael

22 O bryd i'w gilydd gofynnir i chi o bosib gwblhau arolygon, naill ai ar gyfer y Grŵp neu ar ran sefydliadau eraill, er enghraifft Undeb y Myfyrwyr. Bydd y sefydliadau hyn a'u contractwyr yn defnyddio eich manylion at y diben hwnnw'n unig ac wedyn yn eu dileu.

23 Nid yw'n ofynnol i chi gymryd rhan yn unrhyw un o'r arolygon hyn ond mae eich cyfranogiad yn cynorthwyo'r Grŵp, yn ogystal â'r llywodraeth a chyrff rheoleiddio, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol, swyddogol a chyhoeddus.

## Cyflwyno eich Data i Lywodraeth Cymru

24 Mae'n ofyniad statudol i'r Grŵp anfon rhywfaint o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch i Lywodraeth Cymru (LlC). Mae LlC yn casglu, ac yn gyfrifol am, y gronfa ddata lle y mae eich gwybodaeth ddysgu yn cael ei storio. Mae LlC yn defnyddio'ch gwybodaeth at ei dibenion ei hunan. Mae LlC hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd partïon at ddibenion penodol a chyfreithlon. Gall godi tâl ar sefydliadau eraill y mae'n darparu gwasanaethau a data iddynt. Gall defnydd Llywodraeth Cymru o wybodaeth eich Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) gynnwys cysylltu gwybodaeth o'r cofnod â data eraill, fel y disgrifir yn y datganiad ar wahân gan Lywodraeth Cymru a ddarparwyd ar adeg ymrestru/ymgeisio - gweler y linc isod. Rhaid i unrhyw ddefnydd a wneir o wybodaeth LlC gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.

25 Os byddwch yn rhoi gwybodaeth inni am eich tarddiad ethnig neu hiliol, barn wleidyddol, credoau crefyddol, aelodaeth o Undeb Llafur, iechyd corfforol neu feddyliol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd neu dramgwyddau neu achosion troseddol, gallai'r rhain gael eu cynnwys yn eich gwybodaeth Llywodraeth Cymru a'i defnyddio i helpu i fonitro cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

**26 I ddarllen hysbysiad llawn Llywodraeth Cymru am gasglu data am fyfyrwyr ewch i**:

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: hysbysiad preifatrwydd| LLYW.CYMRU

## Monitro Systemau TG a Chyfrifon Myfyrwyr

27 Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol hefyd y gallai'r Grŵp, mewn rhai amgylchiadau, fonitro'r defnydd o'i systemau TG a chyrchu'r wybodaeth defnyddwyr sydd ar ei systemau a'i rwydweithiau ac sydd fel arfer yn breifat. Bydd unrhyw fonitro neu gyrchu sefydliadol yn cydymffurfio â deddfwriaeth y DU gan gynnwys Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Deddf Hawliau Dynol 1998, a Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Lle y bo'r angen, bydd unrhyw fynediad neu fonitro

yn gyfiawnadwy, yn deg ac yn gymesur ac yn unol â Pholisi Defnydd Derbyniol SRhG a Pholisi Safon Preifatrwydd y Grŵp, y mae copïau ohonynt ar gael ar gais.

## Defnydd o Ddata Personol gan Fyfyrwyr

**28** Gall myfyrwyr sy’n aelodau o'r Grŵp brosesu data personol i'w defnyddio mewn perthynas â’u hastudiaethau neu ymchwil academaidd yn unig. Gallant wneud hyn dim ond gyda chaniatâd penodol ymlaen llaw gan yr aelod o staff sy’n eu goruchwylio, a dim ond yn unol ag unrhyw ganllawiau neu Bolisi Safon Preifatrwydd a gyhoeddwyd gan y Grŵp, sydd mewn grym ar y pryd. Mae hyn yn berthnasol os yw’r gweithgareddau hynny yn cael eu cyflawni wrth ddefnyddio cyfarpar sy'n eiddo i'r Grŵp neu beidio neu os ydynt yn cael eu cynnal ar safleoedd y Grŵp neu beidio. Mae hyn yn golygu bod gofyn i'r data personol: gael eu ceisio a’u prosesu mewn dull deg ac yn gyfreithlon; cael eu defnyddio dim ond at ddibenion penodol a chyfreithlon; bod yn gywir ac yn gyfoes; cael eu cadw'n ddiogel; cael eu cyfyngu i'r swm isaf posibl o wybodaeth gan gael eu cadw’n ddienw neu gyda ffugenw lle y bo'n bosibl; heb gael eu cyhoeddi, eu rhoi ar-lein neu eu cymryd y tu allan i'r DU heb gydsyniad yr unigolyn dan sylw; ac yn cael eu dileu neu eu dinistrio pan nad yw'n berthnasol eu cadw ymhellach. Mae gan yr unigolion y cedwir data amdanynt yr hawl i archwilio'r data oni bai iddynt gael eu cynnal at ddibenion ymchwil yn unig ac ni chaiff y data eu rhyddhau yn y fath fodd fel y byddai modd adnabod yr unigolion dan sylw.

**29** Bydd rhaid i fyfyrwyr y mae angen arnynt brosesu data personol at ddibenion academaidd neu ymchwil ymgyfarwyddo â gofynion cyffredinol y Ddeddf Diogelu Data 2018 a’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, ac yn benodol rhaid iddynt lynu wrth yr egwyddorion diogelu data a nodir yn Atodlenni I, II a III o’r Ddeddf Diogelu Data, ac Erthyglau 5, 6 a 9 o’r GDPR. Gall myfyrwyr wneud hyn trwy gael copi o ganllawiau presennol y Grŵp ar ddiogelu data ynghyd â gwybodaeth berthnasol bellach sydd ar gael gan yr aelod o staff sy’n eu goruchwylio neu’r Swyddog Diogelu Data.

**30** Gall myfyrwyr sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ganllawiau/Cod Ymarfer sydd mewn grym fod yn atebol yn bersonol am unrhyw achosion dilynol o dorri Deddf Diogelu Data 2018 neu Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.